

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**12/03/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol  
Questions to the Minister for Social Justice and Local Government
- 4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth  
Questions to the Minister for Heritage
- 6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai  
Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**  
**Questions to the Minister for Social Justice and Local Government**

**Overindebtedness**

**C8 Val Lloyd:** What is the Welsh Assembly Government doing to tackle overindebtedness? OAQ(3)0241(SJL)

**The Minister for Social Justice and Local Government (Brian Gibbons):** 'One Wales 'reaffirms our commitment to help the poorest families in Wales by providing comprehensive benefit and debt advice services, providing extra help for pensioners with council tax, ensuring wider access to credit unions and introducing a Welsh premium to the child trust.

**Orddyledusrwydd**

**C8 Val Lloyd:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael ag orddyledusrwydd? OAQ(3)0241(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Mae 'Cymru'n Un' yn ailddatgan ein hymrwymiad i helpu'r teuluoedd tlotaf yng Nghymru drwy ddarparu gwasanaethau cynghori cynhwysfawr ar fudd-daliadau a dyled, rhoi cymorth ychwanegol i bensiynwyr â'u treth gyngor, sicrhau y gall mwy o bobl fanteisio ar undebau credyd a chyflwyno premiwm i gyfrifon ymddiriedolaeth plant yng Nghymru.

**Domestic Violence**

**Q9 Nerys Evans:** Will the Minister make a statement on strategies aimed at preventing domestic violence? OAQ(3)0232(SJL)

**Brian Gibbons:** The Welsh Assembly Government's domestic abuse strategy has prevention at its heart, and we are working with partner agencies to implement a range of actions to reduce domestic abuse.

**Trais yn y Cartref**

**Q9 Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaethau a anelir at atal trais yn y cartref? OAQ(3)0232(SJL)

**Brian Gibbons:** Diben strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â cham-drin yn y cartref yw atal achosion o'r fath, ac yr ydym yn cydweithio ag asiantaethau sy'n bartner inni er mwyn bwrw ati ag amryw o gamau i ostwng cyfraddau

cam-drin yn y cartref.

### **The Local Government Settlement**

**C10 Alun Cairns:** Will the Minister make a statement on the implications of the local government settlement for local authority performance? OAQ(3)0238(SJL)

**Brian Gibbons:** The settlement is fair and realistic in the context of the overall public spending outlook. I am making £31 million per annum available over the settlement period to enable the Assembly Government and local government to work together on developing and implementing an innovative improvement agenda that will drive up performance.

### **Public Toilets**

**C11 Jenny Randerson:** Will the Minister make a statement on the provision of public toilets? OAQ(3)0248(SJL)

**Brian Gibbons:** It is for local authorities as democratic public bodies to determine the requirements and priorities of their area, including the provision of public toilets, in the light of available resources.

### **Community Safety Partnerships**

**C12 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on what evaluation he has made with regards to community safety partnerships in north Wales? OAQ(3)0242(SJL)

**Brian Gibbons:** The Welsh Assembly Government has participated in a Home Office-led review of the community safety provisions under the Crime and Disorder Act 1998, and we have worked with it on the implementation of the findings, including the new national standards for community safety partnerships.

### **Deaf and Hard of Hearing People**

**C13 Nick Ramsay:** Will the Minister make a statement on the funding made available by the Welsh Assembly Government to ensure

### **Setliad Llywodraeth Leol**

**C10 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau setliad llywodraeth leol i berfformiad awdurdodau lleol? OAQ(3)0238(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae'r setliad yn deg ac yn realistig yng nghyd-destun yr hinsawdd sydd ohoni o ran gwariant cyhoeddus yn gyffredinol. Yr wyf yn parhau i ddarparu £31 miliwn bob blwyddyn dros gyfnod y setliad i alluogi Llywodraeth y Cynulliad i gydweithio â llywodraeth leol er mwyn datblygu a gweithredu agenda flaengar a fydd yn sicrhau perfformiad gwell.

### **Toiledau Cyhoeddus**

**C11 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth toiledau cyhoeddus? OAQ(3)0248(SJL)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb awdurdodau lleol, fel cyrff cyhoeddus democrataidd, yw penderfynu ar anghenion a blaenoriaethau eu hardaloedd, gan gynnwys darpariaeth toiledau cyhoeddus, yng ngoleuni'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

### **Partneriaethau Diogelwch Cymunedol**

**C12 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba werthusiad y mae wedi'i wneud o ran partneriaethau diogelwch cymunedol yn y gogledd? OAQ(3)0242(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd rhan mewn adolygiad, dan arweiniad y Swyddfa Gartref, o'r darpariaethau diogelwch cymunedol a geir yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Yr ydym hefyd wedi cydweithio â hi i weithredu canfyddiadau'r adolygiad hwnnw, gan gynnwys y safonau cenedlaethol newydd ar gyfer partneriaethau diogelwch cymunedol.

### **Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw**

**C13 Nick Ramsay:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau

equality for deaf and hard of hearing people?  
OAQ(3)0278(SJL)

**Brian Gibbons:** The Welsh Assembly Government has taken positive action towards mainstreaming and improving British Sign Language capacity to help to deliver services for deaf and hard of hearing people. A good example is the £1.6 million, matched by £1.1 million of European funding, used to train more than 30 new BSL interpreters.

### Child Poverty

**C14 Bethan Jenkins:** Will the Minister outline any plans to use the benefits take-up scheme as a means of combating child poverty? OAQ(3)0264(SJL)

**Brian Gibbons:** A total of £1 million a year for the next three years has been allocated to further support the council tax benefit scheme to widen the focus of attention to families with children, and to tackle child as well as pensioner poverty. The take-up of housing benefit—crucial to low income families—will also be promoted.

### Social Enterprises

**C15 Paul Davies:** Will the Minister outline the Assembly Government's plans to encourage the growth of social enterprises in deprived communities? OAQ(3)0262(SJL)

**Brian Gibbons:** I have instigated a review of the 2005 social enterprise strategy for Wales, and will publish a revised action plan later this year. Growing social enterprise is a key plank of the Assembly Government's vision for regenerating our communities through, for example, the new phase of Communities First.

cydraddoldeb ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw? OAQ(3)0278(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau positif i wella a phrif ffrydio gwasanaethau Iaith Arwyddion Prydain, er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw. Un enghraifft dda yw'r £1.6 miliwn sydd wedi'i ddefnyddio, ar y cyd ag arian cyfatebol gwerth £1.1 miliwn gan Ewrop, i hyfforddi mwy na 30 o ddehonglwyf BSL.

### Tlodi Plant

**C14 Bethan Jenkins:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu unrhyw gynlluniau i ddefnyddio'r cynllun defnyddio budd-daliadau fel ffordd o frwydro yn erbyn tlodi plant? OAQ(3)0264(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae £1 miliwn wedi ei neilltuo ar gyfer pob blwyddyn o'r tair nesaf i roi mwy o gymorth i gynllun budd-dal y dreth gyngor. Diben hyn yw ehangu cwmpas y cynllun i gynnwys teuluoedd â phlant, a mynd i'r afael â thlodi plant yn ogystal â thlodi pensïynwyr. Caiff cynllun defnyddio budd-dal y dreth gyngor—sy'n allweddol i deuluoedd ar incwm isel—hefyd ei hyrwyddo.

### Mentrau Cymdeithasol

**C15 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i hybu twf mentrau cymdeithasol mewn cymunedau difreintiedig? OAQ(3)0262(SJL)

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi cychwyn adolygiad o strategaeth mentrau cymdeithasol Cymru, a lansiwyd yn 2005, a byddaf yn cyhoeddi cynllun gweithredu diwygiedig yn nes ymlaen eleni. Mae ehangu mentrau cymdeithasol yn un o brif elfennau gweledigaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer adfywio ein cymunedau drwy, er enghraifft, gam nesaf rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

## Westiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth Questions to the Minister for Heritage

### Galleries

**Q10 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on the future of galleries in north Wales? OAQ(3)0268(HER)

**The Minister for Heritage (Rhodri Glyn Thomas):** The Welsh Assembly Government is committed to ensuring the future of art galleries in north Wales and throughout the rest of the country.

### Orielau

**C10 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol orielau yn y gogledd? OAQ(3)0268(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Rhodri Glyn Thomas):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau dyfodol orielau celf yng Ngogledd Cymru a ledled y wlad.

### The Ashes Series

**Q11 Alun Cairns:** Will the Minister make a statement on his plans to maximise the benefit to sport of the Ashes series? OAQ(3)0271(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Securing the right to stage an Ashes test match in 2009 was a huge success for Wales. We will be working closely with Glamorgan County Cricket Club between now and the Ashes test match to drive up participation in cricket, especially among young people.

### Cyfes y Llundw

**C11 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau i gynyddu budd cyfes y Llundw i chwaraeon? OAQ(3)0271(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Bu sicrhau'r hawl i gynnal gêm brawf cyfes y Llundw yn 2009 yn llwyddiant mawr i Gymru. Byddwn yn cydweithio'n agos â Chlwb Criced Sir Forgannwg rhwng nawr a gêm brawf cyfes y Llundw i gynyddu cyfranogiad mewn criced, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

### Tourism in Blaenafon

**Q12 Mohammad Asghar:** Will the Minister make a statement about his plans for tourism in Blaenafon? OAQ(3)0287(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** I announced last month that, as of 21 March, access at the Blaenafon ironworks will be free to all. This means that there will be free entry to the entire Blaenafon industrial landscape world heritage site. I hope that that will be a stimulus to get more and more visitors to Blaenafon.

### Twristiaeth ym Mlaenafon

**C12 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau ar gyfer twristiaeth ym Mlaenafon? OAQ(3)0287(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Cyhoeddais y mis diwethaf y bydd mynediad i weithfeydd haearn Blaenafon yn rhad ac am ddim i bawb o 21 Mawrth. Mae hynny'n golygu bydd mynediad am ddim i dirlun diwydiannol Blaenafon, sy'n un o safleoedd treftadaeth y byd, yn ei gyfanrwydd. Gobeithiaf y bydd hynny'n denu mwy a mwy o ymwelwyr i Flaenafon.

### Community-run Sports Clubs

**Q13 Lynne Neagle:** Will the Minister make statement on Welsh Assembly Government support for community-run sports clubs in Wales? OAQ(3)0248(HER)

### Clybiau Chwaraeon Cymunedol

**C13 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i glybiau chwaraeon cymunedol yng Nghymru? OAQ(3)0248(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** The Welsh Assembly Government is committed to supporting sport clubs via the Sports Council for Wales. In 2006-07, more than £10 million was invested in a range of sport and physical activity community projects, with the aim of providing the best possible introduction to sport and physical activity, especially to young people.

### Sports Facilities

**Q14 Kirsty Williams:** Will the Minister make a statement on the provision of sports facilities in areas of socio-economic deprivation? OAQ(3)0246(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** 'One Wales' confirms the Welsh Assembly Government's commitment to improving levels of participation in sport and physical activity. That includes ensuring that we have the right sports facilities in the right places, particularly where participation rates are the lowest, which we recognise are often in areas of socioeconomic deprivation.

### The 2012 London Olympics

**Q15 David Lloyd:** What assessment has the Minister made of how sport in Wales will benefit from the 2012 London Olympic Games? OAQ(3)0261(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** The International Olympic Committee awarded the games to London, because they were convinced that they would inspire a generation of young people across the world to choose sport. Here in Wales, the games are a vital opportunity to boost Assembly Government efforts to increase participation in sport and physical activity.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gefnogi clybiau chwaraeon drwy gyfrwng Cyngor Chwaraeon Cymru. Yn 2006-07, buddsoddwyd mwy na £10 miliwn mewn ystod eang o brosiectau cymunedol chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gyda'r bwriad o ddarparu'r cyflwyniad gorau posibl i chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn enwedig i bobl ifanc.

### Cyfleusterau Chwaraeon

**C14 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cyfleusterau chwaraeon mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol? OAQ(3)0246(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae 'Cymru'n Un' yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gennym y cyfleusterau chwaraeon priodol yn y lleoliadau cywir, yn enwedig lle mae'r lefelau cyfranogiad ar eu hisaf, sef yn yr ardaloedd o amddifadedd economaidd gymdeithasol, yn aml iawn.

### Gemau Olympaidd Llundain 2012

**C15 David Lloyd:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o sut y bydd chwaraeon yng Nghymru'n elwa o Gemau Olympaidd Llundain 2012? OAQ(3)0261(HER)

**Rhodri Glyn Thomas:** Rhoddodd y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol y gemau i Lundain oherwydd ei fod yn argyhoeddedig y byddai'r gemau yn ysbrydoli cenhedlaeth o bobl ifanc ledled y byd i gymryd rhan mewn chwaraeon. Yma yng Nghymru, mae'r gemau yn gyfle hanfodol i hybu ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to the Minister for Environment, Sustainability and Housing

### Microgeneration in Homes

**Q13 Kirsty Williams:** What support is the Welsh Assembly Government giving to encourage the use of microgeneration in homes? OAQ(3)0299(ESH)

**The Minister for Sustainability and Housing (Jane Davidson):** We have funded the Energy Saving Trust to give information and expert advice to householders, including advice on funding, and are discussing piloting green homes in Wales. Our sustainable buildings policy is increasing the use of microgeneration in new homes, and we are piloting retrofitting in existing social housing stock.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)0260(ESH), yn ôl.  
Question 14, OAQ(3)0260(ESH), withdrawn.*

### Protection of Green and Open Spaces

**Q15 Jonathan Morgan:** What is the Welsh Assembly Government doing to ensure the protection of green and open spaces in urban areas across Wales? OAQ(3)0297(ESH)

**Jane Davidson:** 'Planning Policy Wales' sets out national policies to protect playing fields, formal and informal open spaces, including parks with significant recreational or amenity value. These policies should be used by local planning authorities preparing local development plans, and for planning decisions based on policies in those plans.

### Microgynhyrchu mewn Cartrefi

**C13 Kirsty Williams:** Pa gefnogaeth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei rhoi i hybu defnyddio microgynhyrchu mewn cartrefi? OAQ(3)0299(ESH)

**Y Gweinidog dros Gynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Yr ydym wedi ariannu'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i roi gwybodaeth a chynghor arbenigol i ddeiliaid cartrefi, gan gynnwys cynghor am arian sydd ar gael iddynt, ac yr ydym yn trafod treialu cartrefi gwyrdd yng Nghymru. Mae ein polisi adeiladau cynaliadwy yn cynyddu'r defnydd a wneir o ficrogynhyrchu mewn tai newydd ac yr ydym yn treialu ffyrdd o wneud y stoc tai cymdeithasol presennol yn fwy effeithlon a chynaliadwy.

### Gwarchod Mannau Gwyrdd ac Agored

**C15 Jonathan Morgan:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod manau gwyrdd ac agored mewn ardaloedd trefol yn cael eu gwarchod ledled Cymru? OAQ(3)0297(ESH)

**Jane Davidson:** Mae 'Polisi Cynllunio Cymru' yn amlinellu ein polisiâu cenedlaethol i amddiffyn caeau chwarae, manau agored ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys parciau sy'n werthfawr am resymau hamdden neu amwynder. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r polisiâu hyn i baratoi cynlluniau datblygu lleol ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar y polisiâu yn y cynlluniau hynny.